

2023 Rhif 1030 (Cy. 170)

2023 No. 1030 (W. 170)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465
a'r A470 (Cylchfannau Cwm-
gwrach a Resolfen, Castell-nedd a
Chylchfan Swansea Road, Merthyr
Tudful) (Terfyn Cyflymder 30mya)
2023

The A465 & A470 Trunk Roads
(Cwm-gwrach and Resolfen
Roundabouts, Neath & Swansea
Road Roundabout, Merthyr Tydfil)
(30mph Speed Limit) Order 2023

Gwnaed 18 Medi 2023

Made 18 September 2023

Yn dod i rym 20 Medi 2023

Coming into force 20 September 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd y A465 a'r A470, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 and A470 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of South Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 and regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465 a'r A470 (Cylchfannau Cwm-gwrach a Resolfen, Castell-nedd a Chylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2023.

Title and Commencement

1. The title of this Order is the A465 & A470 Trunk Roads (Cwm-gwrach and Resolfen Roundabouts, Neath & Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil) (30mph Speed Limit) Order 2023 and this Order comes into force on 20 September 2023.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656.

Interpretation

2. In this Order—

- (1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);

- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 18 Medi 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 195 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cwm-gwrach hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 195 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cwm-gwrach hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o'r gylchfan honno.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Resolfen hyd at bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Resolfen hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gylchfan honno.

Y darn o gerbyttfyrd d tua'r dwyrain a thua'r gorllewin cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gorllewin o Gylchfan Swansea Road hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o'r gylchfan honno, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan.

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the A465 trunk road that extends from a point 195 metres west of Cwm-gwrach Roundabout to a point 20 metres east of said roundabout, including the roundabout gyratory.

The length of the westbound carriageway of the A465 trunk road that extends from a point 195 metres east of Cwm-gwrach Roundabout to a point 20 metres west of said roundabout.

The length of the eastbound carriageway of the A465 trunk road that extends from a point 30 metres west of Resolfen Roundabout to a point 50 metres east of said roundabout, including the roundabout gyratory.

The length of the westbound carriageway of the A465 trunk road that extends from a point 30 metres east of Resolfen Roundabout to a point 50 metres west of said roundabout.

The length of the eastbound and westbound carriageways of the A470 trunk road that extends from a point 20 metres west of Swansea Road Roundabout to a point 20 metres east of said roundabout, including the roundabout gyratory.